Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Osteopathic Pre-Registration Education

# **Astudio osteopathi gydag anabledd neu gyflyrau iechyd:** Canllawiau i ymgeiswyr a myfyrwyr

Awst 2025



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC)** | **3** |
| **Adran 1** | **Cyflwyniad** | **4** |
| | Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn? | 4 |
| | Beth sy'n cael ei gynnwys yn y canllawiau hyn? | 4 |
| | Iaith | 4 |
| | Beth yw osteopathi? | 4 |
| | Beth mae osteopathiaid yn ei wneud? | 5 |
| | Sut alla i ddod yn osteopath? | 5 |
| | Fel person anabl, a alla i ddod yn osteopath? | 6 |
| | Pa hawliau y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu rhoi i fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd? | 7 |
| | Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys i addysg a hyfforddiant myfyrwyr osteopathi? | 7 |
| | Sut mae Safonau Addysg a Hyfforddiant y GOsC yn gymwys i ddarparwyr addysg osteopathig? | 8 |
| | A oes unrhyw fyfyrwyr osteopathig ag anableddau neu gyflyrau iechyd? | 8 |
| | Gyda phwy y dylwn i siarad os ydw i'n meddwl yr hoffwn fod yn osteopath? | 8 |
| **Adran 2** | **Gwneud cais i astudio osteopathi** | **10** |
| | Pa ddarparwr addysg osteopathig ddylwn i wneud cais iddo? | 10 |
| | A ddylwn ddatgelu fy anabledd ar y ffurflen gais? | 10 |
| | Sut bydd fy nghais yn cael ei ystyried? | 11 |
| | Beth yw ystyr 'gwneud addasiadau rhesymol'? | 11 |
| | A oes unrhyw anableddau a allai fy atal rhag hyfforddi fel osteopath? | 13 |
| | Sut alla i gael y cymorth sydd ei angen arnaf? | 15 |
| | Beth os ydw i'n meddwl fy mod wedi cael fy nhrin yn annheg yn ystod y broses ymgeisio? | 15 |
| **Adran 3** | **Yn ystod y rhaglen astudio** | **16** |
| | Os byddaf yn cael lle, a fyddaf yn cael cefnogaeth yn ystod fy rhaglen radd mewn osteopathi? | 16 |
| | Pa addasiadau y gellir eu gwneud i'm cefnogi i gwblhau'r rhaglen? | 16 |
| | A fydd angen i mi newid y ffordd rwy'n rheoli fy iechyd neu anabledd? | 18 |
| | Sut mae materion iechyd ac anabledd yn ymwneud ag addasrwydd myfyrwyr i ymarfer? | 18 |
| | Beth yw 'addasrwydd i astudio'? | 20 |
| | Beth sy'n digwydd os bydd anabledd neu gyflwr iechyd yn datblygu neu bod y diagnosis yn cael ei roi ar ôl i mi ddechrau'r cwrs? | 20 |
| | Os byddaf yn llwyddo i gael gradd, a fyddaf yn cael fy nghofrestru fel osteopath gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol? | 21 |
| | Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gymhwyso? | 22 |
| | A fydd modd i mi ennill bywoliaeth fel osteopath? | 22 |
| **Adran 4** | **Cael rhagor o wybodaeth a chymorth** | **23** |

# 1: Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

1 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn rheoleiddio ymarfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig. Fel corff rheoleiddio, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob ymgeisydd a myfyriwr osteopathi.

2 Rydym yn **un o naw rheoleiddiwr iechyd proffesiynol** a sefydlwyd gan y gyfraith er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

3 Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol er mwyn ymarfer yn y DU.

4 Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, ein prif ddiben yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiwn. Rydym yn gwneud hyn drwy'r canlynol:

- Cadw'r **Gofrestr** o'r holl bobl y caniateir iddynt ymarfer osteopathi yn y DU.
- Gosod, monitro a datblygu **safonau** hyfforddiant, ymarfer ac ymddygiad osteopathig.
- Sicrhau ansawdd addysg osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â **datblygiad proffesiynol parhaus**.
- Helpu cleifion ac eraill sydd â **phryderon neu gwynion** am osteopath. Mae'r pŵer gennym i dynnu o'r Gofrestr unrhyw osteopath sy'n anaddas i ymarfer.

5 Mae cleifion yn disgwyl y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gymwys ac yn ymarfer yn ddiogel, y byddant yn trin cleifion yn briodol ac yn ymddwyn yn foesegol. Cyfrifoldeb y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw sicrhau bod hyn yn digwydd ac i gymryd camau os yw ymarfer osteopath yn is na'n safonau.

# Adran 1: Cyflwyniad

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

6 Mae llawer o bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn mwynhau gyrfaoedd gwerth chweil ym maes gofal iechyd gydag addasiadau neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer. Os ydych yn ystyried gyrfa yn y maes osteopathi ac yn anabl neu os oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, dylai'r llyfryn canllawiau hwn eich helpu i benderfynu ai addysg a hyfforddiant osteopathig yw'r dewis iawn i chi. Ar gyfer myfyrwyr osteopathi sydd â chyflwr iechyd neu anabledd neu sy'n datblygu cyflwr iechyd neu anabledd, bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i reoli'r rhain ochr yn ochr â'ch astudiaethau, ac i dynnu sylw at fesurau cymorth sydd ar gael i chi. Darperir canllawiau ar wahân ar gyfer darparwyr addysg osteopathig: **Myfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd: Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Osteopathig.**

## Beth sy'n cael ei gynnwys yn y canllawiau hyn?

7 Mae'r canllawiau hyn yn esbonio natur y gwaith y mae osteopathiaid yn ei wneud, yr addysg a'r hyfforddiant y bydd eu hangen arnoch i ddod yn osteopath, a'r gefnogaeth y gallwch ei disgwyl fel myfyriwr osteopathi. Efallai y byddwch yn ei chael hi'n ddefnyddiol darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'n **canllawiau am addasrwydd myfyrwyr i ymarfer ac ymddygiad proffesiynol**.

- Mae **adran 2** yn disgrifio'r broses o wneud cais i ymgymryd â chwrs osteopathig a'r camau y bydd darparwyr addysg osteopathig yn eu cymryd wrth ystyried eich cais.
- Mae **adran 3** yn disgrifio'r cymorth y gallwch ei ddisgwyl yn ystod hyfforddiant a'r hyn sy'n digwydd ar ôl graddio.
- Mae **adran 4** yn awgrymu ffynonellau eraill o wybodaeth berthnasol.

## Iaith

8 Rydym yn deall y gall dewis pobl o ran yr iaith i'w defnyddio am eu hanabledd neu eu hiechyd fod yn un personol. Yn y canllawiau hyn rydym yn cyfeirio at 'bobl anabl' a 'myfyrwyr anabl', termau sydd wedi'u seilio ar y **model cymdeithasol o anabledd**. Mae hyn yn cydnabod y gall rhwystrau a achosir gan agweddau mewn cymdeithas analluogi pobl, yn ogystal â ffactorau amgylcheddol a sefydliadol. Rydym yn defnyddio'r term 'pobl ag anableddau' neu 'myfyrwyr ag anableddau' mewn rhai cyd-destunau hefyd. Disgrifir y diffiniad o anabledd fel y'i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ym mharagraffau 25-32.

9 Trwy gydol y canllawiau hyn, rydym yn cyfeirio at 'anableddau' a 'chyflyrau iechyd'. Mae hyn yn cydnabod nad yw pawb sy'n bodloni'r diffiniad yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn ystyried neu'n disgrifio eu hunain yn "anabl", ac nad yw rhai cyflyrau iechyd yn cael eu categoreiddio fel anableddau o fewn diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr amddiffyniad cyfreithiol sydd gan bobl anabl yn ôl y gyfraith, rydym yn defnyddio'r geiriau 'anabl' neu 'anabledd'.

## Beth yw osteopathi?

10 Mae osteopathi yn ffurf o ddiagnosis a thriniaeth â llaw yn bennaf, ac fe'i defnyddir wrth drin amrywiaeth eang o anhwylderau sy'n gysylltiedig â strwythur a swyddogaeth y corff, ac effaith hyn ar iechyd a lles unigolyn. Mae'n cydnabod, ac yn gweithio gyda, y berthynas rhwng y corff, y meddwl a safbwyntiau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd person.

## Beth mae osteopathiaid yn ei wneud?

11 Mae osteopathiaid yn ystyried pob person fel unigolyn. Yn ystod ymweliad cyntaf claf, bydd yr osteopath yn treulio amser yn cymryd hanes meddygol manwl, gan gynnwys gwybodaeth am ei ffordd o fyw ac iechyd cyffredinol. Bydd yr osteopath yn cynnal archwiliad corfforol. Gofynnir i gleifion wneud rhai symudiadau sylfaenol er mwyn i'r osteopath asesu ei symudedd cyffredinol, yn ogystal â rhannau penodol o'r corff sydd â symptomau. Gellir cynnal archwiliad o feinweoedd a chymalau penodol er mwyn helpu i lywio diagnosis, yn ogystal â phrofion niwrolegol ac orthopedig i asesu symudedd cymalau a gweithrediad nerfau.

12 Trwy gymryd hanes manwl a chynnal archwiliad ac asesiad priodol, bydd yr osteopath yn datblygu diagnosis dros dro, ac, mewn trafodaeth â'r claf, yn cytuno ar gynllun triniaeth gyda'i gilydd. Mae dulliau osteopathig o driniaeth a rheoli cleifion yn cynnwys:

a. Cymhwyso amrywiaeth o dechnegau â llaw gyda'r nod o wella symudedd a gweithrediad ffisiolegol mewn meinweoedd i wella iechyd a lles a lleihau poen.

b. Cyngor ac arweiniad adsefydlu a ffordd o fyw i hwyluso hunanreoli a gwella adferiad.

c. Cyfeirio at ganllawiau ac adnoddau i gefnogi dewisiadau a phenderfyniadau cleifion ynghylch eu hiechyd a'u lles.

13 Mae cleifion yn dymuno cael triniaeth ar gyfer amrywiaeth eang o gyflyrau, gan gynnwys poen cefn, poen yn y cymalau, sbasmau yn y cyhyrau, seiatica, cur pen sy'n gysylltiedig â'r gwddf, tensiwn, poen arthritis a mân anafiadau chwaraeon.

14 Mae dros 5,400 o osteopathiaid wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'r proffesiwn yn denu nifer cyfartal bron o ddynion a menywod, o amrywiaeth o gefndiroedd ac o wahanol oedrannau, llawer ohonynt wedi dod yn syth o'r ysgol neu'r coleg, ond llawer sydd wedi cael gyrfaoedd blaenorol hefyd.

15 Mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn hunangyflogedig ac yn gweithio yn y sector preifat. Mae nifer cynyddol yn gweithio mewn amgylcheddau amlddisgyblaethol yn y GIG, neu mewn gofal iechyd galwedigaethol mewn cyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat. Rhaid i holl osteopathiaid y DU, ble bynnag y maen nhw'n gweithio, fod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

## Sut alla i ddod yn osteopath?

16 Er mwyn cael eich cofrestru i ymarfer fel osteopath, bydd angen i chi gyflawni cymhwyster cydnabyddedig (RQ). Hynny yw, cymhwyster y mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi'i gymeradwyo a gaiff ei ddyfarnu gan ddarparwr addysg osteopathig.

17 Mae **rhaglenni gradd osteopathig amser llawn a rhan-amser** ar gael yn y DU. Bydd y rhain i gyd yn cynnwys cyfuniad o astudiaeth academaidd, hyfforddiant osteopathig ymarferol a phrofiad clinigol dan oruchwyliaeth. Mae dulliau asesu nodweddiadol mewn addysg osteopathig yn cynnwys: arholiadau ysgrifenedig, traethodau, traethodau ymchwil, asesiad ymarferol o dechneg osteopathig, asesiadau ymarferol seiliedig ar achosion, ac asesiadau clinigol gyda chleifion.

18 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn monitro safonau addysg a hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr addysg osteopathig, trwy broses o adrodd blynyddol, ac rydym yn cynnal adolygiadau llawn yn rheolaidd hefyd. Cynhelir adolygiadau gan gyfeirio at ein safonau cyhoeddedig, gan gynnwys **Deilliannau a Safonau i Raddedigion ar gyfer Addysg a Hyfforddiant** y GOsC.

19 Mae cyflawni cymhwyster cydnabyddedig yn golygu eich bod yn gallu ymarfer, heb oruchwyliaeth, i'r safon a ddisgwylir yn ein **Safonau Ymarfer Osteopathig**, ac wedi bodloni'r canlyniadau a nodir yn ein Deilliannau i Raddedigion.

20 Bydd y cymhwyster cydnabyddedig yn eich galluogi i wneud cais i gofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth o iechyd da a chymeriad da, bodloni ein hamodau ynghylch y ffi gofrestru a darparu cadarnhad o yswiriant indemniad proffesiynol. Rhaid i chi fod wedi cofrestru cyn i chi ddechrau ymarfer.

21 Mae ein gofyniad o ran iechyd da yn golygu bod:

> … yn rhaid i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd. Mae llawer o bobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu ymarfer gydag addasiadau neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer.

## Fel person anabl, a allaf ddod yn osteopath?

22 Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn osteopathig yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Rydym yn annog unrhyw un sydd â'r potensial i ddod yn osteopath i ystyried gyrfa mewn osteopathi, ac mae hyn yn cynnwys pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

23 Mae myfyrwyr ac ymarferwyr anabl yn gwneud cyfraniad unigryw i osteopathi, gan ddod â phrofiad uniongyrchol o amrywiaeth o amhariadau, cyflyrau iechyd hirdymor a niwrowahaniaeth, a'r gallu i ddarparu mewnwelediad gwerthfawr. Mae rhai cleifion yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi synwyrusrwydd a sensitifrwydd penodol, ac yn uniaethu'n agos ag ymarferwyr anabl.

24 Mae osteopathi fel proffesiwn yn broffesiwn gwell gydag ymarferwyr sydd ag amrywiaeth o gefndiroedd a galluoedd, ond er mwyn bod yn osteopath rhaid i berson allu bodloni gofynion y **Safonau Ymarfer Osteopathig**. Mae hyn yn gofyn bod eich iechyd corfforol a meddyliol yn ddigonol i chi allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd.

25 Os ydym yn cadarnhau bod ymgeisydd yn bodloni ein holl safonau ar gyfer cofrestru fel osteopath ac yn cael ei dderbyn i'r Gofrestr, mae ganddo hawl gyfreithiol i ymarfer heb gyfyngiad. Mae hyn yn golygu, pan fydd darparwr addysg yn ystyried addasrwydd ymgeisydd i hyfforddi fel osteopath, mae'n rhaid iddynt fod yn hyderus bod yr unigolyn yn debygol o fod â'r gallu a'r galluogrwydd i fodloni holl ofynion ymarfer proffesiynol ar ôl graddio. Ar ôl cofrestru, mae gan osteopathiaid rwymedigaeth broffesiynol barhaus i benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn parhau i fod yn addas i ymarfer. Mae hunan-fonitro yn rhan bwysig o fod yn weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig. Ar ôl cofrestru, bydd yn ofynnol i'r unigolyn graddedig gwblhau **datblygiad proffesiynol parhaus**.

26 Fel corff rheoleiddio nid ydym yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Nid yw bod ar ein Cofrestr yn gwarantu y byddwch yn dod o hyd i gyflogaeth fel osteopath, neu os ydych yn dewis hunangyflogaeth y byddwch yn denu nifer ddigonol o gleifion i wneud bywoliaeth.

## Pa hawliau y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn eu rhoi i fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd?

27 Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn myfyrwyr rhag gwahaniaethu neu aflonyddu ar sail 'nodwedd warchodedig', ac yn eu hamddiffyn rhag erledigaeth hefyd. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig.

Mae gwahaniaethu anghyfreithlon yn cynnwys:

- gwahaniaethu uniongyrchol
- gwahaniaethu anuniongyrchol
- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
- methu â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

28 Mae person yn cael ei ystyried yn anabl at ddibenion y Ddeddf os oes ganddo amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. 'Mae 'hirdymor' yn golygu bod yr amhariad wedi para am 12 mis neu ragor neu'n debygol o bara am y cyfnod hwnnw. Diffinnir 'sylweddol' fel bod yn fwy na mân neu ddibwys.

29 Nid oes angen i unigolyn gael diagnosis meddygol o'i amhariad – y ffactor pwysig yw effaith yr amhariad. Gall ffactorau eraill fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw person yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghanllawiau'r Llywodraeth.

30 Yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb, gall 'amhariad' gwmpasu, er enghraifft, cyflyrau meddygol hirdymor fel asthma a diabetes, lle mae'r rhain yn cael effaith sylweddol, a chyflyrau cyfnewidiol neu gynyddol fel arthritis gwynegol.

31 Mae amhariad meddyliol yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl (fel anhwylder deubegynol neu iselder), anawsterau dysgu (gan gynnwys cyflyrau fel dyslecsia) ac anableddau dysgu (fel awtistiaeth). Mae rhai pobl, gan gynnwys y rhai sydd â chanser, sglerosis ymledol a HIV/AIDS, yn cael eu hamddiffyn yn awtomatig fel pobl anabl gan y Ddeddf.

32 Bydd pobl ag anffurfiad difrifol yn cael eu hamddiffyn fel anabl heb orfod dangos ei fod yn cael effaith niweidiol sylweddol ar weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae cyflyrau cynyddol a'r rhai sydd ag effeithiau cyfnewidiol neu fynych, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl fel iselder, hefyd yn cael eu cynnwys ar yr amod eu bod yn bodloni'r prawf o gael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl sydd wedi bodloni'r diffiniad yn y gorffennol hefyd. Mae yna rai eithriadau a enwir ac mae hyn yn cynnwys dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.

33 Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y gwahanol fathau o wahaniaethu yn **Myfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd: Canllawiau i ddarparwyr addysg osteopathig**.

## Sut mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gymwys i addysg a hyfforddiant myfyrwyr osteopathi?

34 Mae darparwyr addysg osteopathig yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n gymwys i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Maen nhw'n ddarostyngedig i **ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** hefyd. Mae hon yn ddyletswydd gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau nid yn unig i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, ond hefyd i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phobl nad ydynt.

35 Mae'r Ddeddf yn gwahardd darparwyr addysg osteopathig rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr neu fyfyrwyr neu aflonyddu arnynt neu eu herlyn. Gall ymgeisydd neu fyfyriwr sy'n credu ei fod wedi wynebu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth gan ddarparwr addysg, wneud hawliad o dan y Ddeddf.

36 Gall darparwyr addysg benderfynu ar y ffordd orau o fodloni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, a byddant yn defnyddio dulliau gwahanol yn dibynnu ar eu maint, a'u natur.

## Sut mae Safonau Addysg a Hyfforddiant y GOsC yn gymwys i ddarparwyr addysg osteopathig?

37 Mae gofynion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u cynnwys ym mhob agwedd ar ein **Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant**. Er enghraifft:

38
- gweithredu proses dderbyn agored, deg, dryloyw a chynhwysol, gyda gofynion mynediad priodol gan gynnwys cymhwysedd mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar.
- dangos bod polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith mewn perthynas ag ymgeiswyr, a bod y rhain yn cael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol.
- sicrhau bod y diwylliant dysgu yn deg, yn ddiduedd, yn gynhwysol ac yn dryloyw, ac yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o gynhwysiant, addasiadau rhesymol a rhagweld anghenion unigolion amrywiol), a'i fod yn bodloni gofynion yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a rhaid iddo fod yn gefnogol ac yn groesawgar.
- sicrhau, mewn perthynas â chanlyniadau clinigol, y dylai darparwyr addysg wneud yn siŵr bod yr adnoddau sydd ar gael yn ystyried anghenion amrywiol myfyrwyr mewn ffordd ragweithiol
- sicrhau bod adeiladau'n hygyrch i gleifion, myfyrwyr ac osteopathiaid.
- sicrhau bod anghenion amrywiol myfyrwyr yn cael eu parchu a'u hystyried ym mhob agwedd ar y rhaglen.

39 Mae ein hadolygiadau o ddarparwyr addysg a'n proses fonitro flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos sut maen nhw'n bodloni'r holl safonau.

## A oes unrhyw fyfyrwyr osteopathig ag anableddau neu gyflyrau iechyd?

40 Mae llawer o fyfyrwyr anabl a myfyrwyr â chyflyrau iechyd wedi cwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus ac wedi mynd ymlaen i ymarfer osteopathi. Mae myfyrwyr sy'n ymgymryd ag addysg osteopathig, neu sydd wedi gwneud hynny, yn cynnwys y rhai sy'n niwroamrywiol (a all gynnwys awtistiaeth, anhwylderau diffyg canolbwyntio, dyslecsia, a dyspracsia), amhariadau synhwyraidd (gweledol a chlywedol), anableddau corfforol (fel amhariad ar symudedd), cyflyrau iechyd (fel canser), salwch hirdymor amrywiol (gan gynnwys diabetes, epilepsi) a chyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder cyffredinol ac anhwylder panig).

## Gyda phwy y dylwn i siarad os ydw i'n meddwl yr hoffwn fod yn osteopath?

41 Yn y lle cyntaf, dylech siarad â chymaint o bobl â phosibl – gan gynnwys, os yw'n bosibl, osteopathiaid yn eich ardal leol – i'ch helpu i benderfynu a fyddai osteopathi yn ddewis da i chi fel gyrfa. Bydd hyn yn eich helpu i gael barn amrywiol am fanteision ac anfanteision posibl osteopathi fel opsiwn gyrfa.

42 Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi darllen ein **Safonau Ymarfer Osteopathig** a'n **Deiliannau Graddedigion** hefyd, fel y gallwch ddechrau mynd ati eich hun i asesu a allai osteopathi fod yn yrfa addas i chi.

43 Mae'n hanfodol, hefyd, eich bod chi'n siarad â staff darparwyr addysg osteopathig. Mae ganddynt brofiad o gefnogi myfyrwyr ag amrywiaeth eang o anableddau a chyflyrau iechyd a byddant yn gallu esbonio'r gefnogaeth y mae myfyrwyr eraill wedi'i chael, a sut maen nhw wedi addasu i heriau bywyd fel myfyriwr. Dylech gysylltu â darparwyr hyfforddiant cyn i chi wneud cais pendant er mwyn darganfod beth mae'r rhaglen yn ei gynnwys, sut beth yw gweithio fel osteopath, i ddysgu mwy am sut mae myfyrwyr eraill wedi symud ymlaen.

44 Os byddwch yn penderfynu gwneud cais, gallwch fod yn sicr na fydd ymholiadau cychwynnol fel yr uchod yn dylanwadu arno nac yn effeithio arno. Ni fydd y darparwr addysg osteopathig yn defnyddio'r cyswllt cychwynnol hwn i'ch asesu fel darpar ymgeisydd, ond bydd yn manteisio ar y cyfle i'ch helpu i feddwl am oblygiadau ymgymryd ag addysg a hyfforddiant osteopathig a dechrau ar yrfa yn y maes osteopathi.

45 Pan fyddwch yn cysylltu â darparwr addysg osteopathig, gofynnwch am bolisi cydraddoldeb y darparwr, y cymorth y mae'n ei ddarparu i fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, ac a allwch siarad â rhywun o'i wasanaeth anabledd neu gymorth dysgu. Bydd hyn yn rhoi arwydd da i chi o'r math o gymorth a allai fod ar gael i chi.

46 Mae nifer o ddarparwyr addysg osteopathig yn cynnig diwrnodau agored i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfle gwych i ddysgu mwy am natur osteopathi a beth mae addysg a hyfforddiant osteopathig yn ei gynnwys. Yn aml bydd cyfle i chi siarad â myfyrwyr ar y cwrs ac i arsylwi neu gymryd rhan mewn darlithoedd a sesiynau ymarferol. Dylai hyn eich helpu i ddeall yn well ofynion corfforol a seicolegol astudio osteopathi. Bydd yn eich helpu i asesu hefyd a yw'r lefel o gymorth a fydd ar gael yn debygol o fod yn ddigonol i chi.

# Adran 2: Gwneud cais i astudio osteopathi

## Pa ddarparwr addysg osteopathig ddylwn i wneud cais iddo?

47 Nid yw'n bosibl i ni eich cynghori ar y darparwr addysg osteopathig a allai ddiwallu eich anghenion orau. Mae'r holl gyrsiau rydym wedi'u cymeradwyo wedi bodloni ein safonau ac wedi cael eu cydnabod fel rhai sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster cydnabyddedig. Wrth ddod i'ch penderfyniad, efallai yr hoffech nodi pa anghenion cymorth sydd yn debygol o fod gennych, ac ystyried sut y gellid diwallu'r rhain orau tra byddwch yn fyfyriwr. Gallai hyn gynnwys ffactorau fel: pa mor agos yw'r darparwr addysg osteopathig at eich teulu, eich ffrindiau a'ch gwasanaethau gofal iechyd, fel eich bod yn gallu cael eu cefnogaeth barhaus; maint a lleoliad y darparwr; natur y cwrs; a all y sefydliad gynnig llety myfyrwyr addas i chi neu eich helpu i ddod o hyd i hynny; a'r gwasanaethau cymorth anabledd a fyddai ar gael i chi.

## A ddylwn ddatgelu fy anabledd ar y ffurflen gais?

48 Mae er eich budd chi i godi unrhyw ofynion am addasiad neu gymorth sy'n ymwneud â'ch **anabledd neu gyflwr iechyd** cyn gynted â phosibl yn y broses ymgeisio. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi wneud hyn. Byddem yn eich cynghori i fod yn agored ynglŷn â'r wybodaeth hon oherwydd bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i ddarparwr addysg osteopathig ddiwallu eich anghenion ac i drefnu cymorth cyn i'r cwrs ddechrau. Gallwch fod yn sicr, os ydych yn rhoi'r wybodaeth hon i ddarparwyr addysg, ei bod yn anghyfreithlon iddynt wahaniaethu yn eich erbyn oherwydd bod gennych anabledd neu gyflwr iechyd.

49 Os byddwch yn gwneud cais i ddarparwr addysg osteopathig drwy Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), cewch eich gwahodd i nodi a oes gennych anabledd, angen dysgu penodol neu gyflwr meddygol (o restr o opsiynau), neu i nodi nad ydych yn dymuno rhoi'r wybodaeth hon. Os byddwch yn darparu gwybodaeth am anabledd neu gyflwr iechyd, bydd y darparwr yn ei chadw'n gyfrinachol.

50 Bydd darparwyr addysg osteopathig yn ystyried eich anabledd, ac unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i'ch cefnogi i fodloni gofynion y cwrs, ar wahân i ystyried a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau cywir gennych ar gyfer cael mynediad i'r cwrs.

51 Mae gan ddarparwyr addysg osteopathig, fel unrhyw sefydliad addysg arall, yr hawl i osod meini prawf mynediad a chynnal proses ddethol ar gyfer mynediad i'w rhaglenni. Mae hyn oherwydd nad yw er budd myfyrwyr na'r sefydliad i dderbyn myfyriwr nad oes ganddo siawns dda o gwblhau'r cwrs. Mae gan y darparwr ddyletswydd gofal hefyd i'r holl fyfyrwyr y maen nhw'n eu cofrestru: nid ydynt am i unrhyw un sy'n dechrau'r rhaglen beidio â'i chwblhau.

52 Rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig ystyried diogelwch cleifion hefyd. Mae osteopathi yn fath o addysg alwedigaethol sy'n golygu bod myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth trwy ymarfer clinigol. Rhaid i ddarparwyr addysg fod yn sicr bod y gallu gan fyfyrwyr i ddysgu osteopathi heb roi cleifion mewn perygl, ac i gyflawni'r Deilliannau i Raddedigion.

Mae bod yn agored ac yn ddibynadwy yn elfen bwysig o'r **Safonau Ymarfer Osteopathig** (OPS). Mae Safon D11 yn nodi bod yn rhaid i chi 'sicrhau nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion'. Mae'n bwysig datblygu'r hunan-ymwybyddiaeth hon yn gynnar.

53 Dylai myfyriwr ddeall y gall cyflyrau iechyd effeithio ar eu gallu i astudio. Pan fo myfyrwyr yn cydnabod hyn, ac yn ceisio cymorth priodol, mae eu cyflwr iechyd yn llawer llai tebygol o effeithio ar eu cynnydd.

## Sut bydd fy nghais yn cael ei ystyried?

54 Bydd darparwr addysg osteopathig yn asesu pob cais am fynediad yn erbyn yr un meini prawf mynediad. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob sefydliad addysg gymryd camau rhesymol a gwneud addasiadau i ddarparu ar gyfer myfyrwyr anabl, ond nid yw'n ofynnol iddynt amrywio unrhyw safon gymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer mynediad i'w cwrs. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau nad yw meini prawf mynediad i'r cwrs, a'r ffordd y maen nhw'n cael eu cymhwyso, yn gwahaniaethu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn erbyn ymgeiswyr anabl. Rhaid i'r meini prawf mynediad fod yn ofynion dilys ac angenrheidiol ar gyfer y cwrs.

55 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg osteopathig yn cyfweld ymgeiswyr i asesu eu haddasrwydd i gael eu derbyn i hyfforddi i fod yn osteopath. Cyn cynnal cyfweliadau, dylai'r sefydliad wirio gyda chi a oes gennych unrhyw ofynion penodol i'ch galluogi i gael mynediad at broses gyfweld a chymryd rhan lawn yn y broses honno.

56 Bydd cyfweliadau yn canolbwyntio'n bennaf ar geisio canfod a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen ar gyfer addysg a hyfforddiant osteopathig gennych ai peidio. Yn gyffredinol, ni fydd darparwyr addysg yn ystyried eich anabledd na'ch cyflwr iechyd ar y pwynt hwn, er nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd cwestiynau o'r fath. Efallai y bydd darparwr y cwrs yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i chi astudio neu i fodloni safonau cymhwysedd y cwrs. Fodd bynnag, rydych yn rhydd i drafod eich anabledd neu gyflwr iechyd yn y cyfweliad ac i fanteisio ar y cyfle i archwilio sut y gallai hyn effeithio ar eich profiad addysg a hyfforddiant. Gall hyn gynnwys sut rydych yn credu y gellid ystyried eich profiadau sy'n ymwneud ag anabledd neu iechyd yn nodwedd gadarnhaol yn eich astudiaethau ac fel gweithiwr proffesiynol.

57 Bydd darparwyr addysg osteopathig yn seilio eu hasesiad o'ch addasrwydd ar gyfer y cwrs ar y rhagdybiaeth eu bod yn gallu gwneud addasiadau sy'n rhesymol, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn sicrhau bod eich addasrwydd yn cael ei farnu ar sail eich rhinweddau fel ymgeisydd, waeth beth yw'r anabledd neu gyflwr iechyd sydd gennych. Dim ond ar ôl i benderfyniad gael ei wneud am eich addasrwydd ar gyfer mynediad i'r cwrs y bydd asesiad manwl o ba addasiadau fydd eu hangen yn digwydd, er mwyn ystyried a ellir eu rhoi ar waith yn rhesymol.

## Beth yw ystyr 'gwneud addasiadau rhesymol'?

58 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr addysg i wneud addasiadau rhesymol – hynny yw, i gymryd camau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu cymryd rhan lawn yn yr addysg a buddion, cyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddarperir i fyfyrwyr eraill.

59 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr addysg osteopathig gymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth y maen nhw'n ei ddarparu neu'n ei wneud – gan gynnwys nodweddion ffisegol eu safle – yn rhoi myfyrwyr anabl dan anfantais sylweddol (h.y. mae'n fwy na mân neu ddibwys). Maen nhw'n gorfod darparu cymhorthion neu wasanaethau ategol hefyd – fel offer penodol, meddalwedd cyfrifiadurol, neu gymorth ychwanegol gan staff – lle, hebddynt, y byddai myfyrwyr anabl yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol.

60 Disgwylir i ddarparwyr addysg osteopathig gynllunio ymlaen llaw a rhagweld gofynion pobl â gwahanol fathau o anabledd (er enghraifft, pobl y mae eu golwg neu symudedd wedi'i amharu), yn ogystal ag ymateb i anghenion penodol unigol ymgeiswyr a myfyrwyr anabl. Y gofyniad yw gwneud addasiadau sy'n rhesymol. Bydd ffactorau amrywiol yn penderfynu a yw addasiad yn rhesymol, gan gynnwys:

- a yw'r newid yn debygol o fod yn effeithiol
- ymarferoldeb y newid
- cost y newid
- adnoddau a maint y sefydliad
- unrhyw darfu ar eraill, a allai gynnwys staff, myfyrwyr eraill neu gleifion
- y cymorth ariannol sydd ar gael.

61 Mae cyflyrau iechyd meddwl hirdymor yn cael eu hystyried yn anableddau o dan y Ddeddf. Mae gan ddarparwyr addysg, felly, ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor. Hyd yn oed mewn achosion lle nad yw iechyd meddwl myfyriwr wedi'i gynnwys yn y Ddeddf, er enghraifft yn ystod pwl acíwt o drallod yn dilyn profedigaeth nad yw'n para am fwy na blwyddyn, byddai'n dal i gael ei ystyried yn arfer gorau i wneud addasiadau rhesymol.

**Rhai enghreifftiau o addasiadau cyffredinol a wnaed gan ddarparwyr addysg osteopathig:**

- darparu gwybodaeth am y cwrs mewn fformatau amgen
- gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod llwybrau mynediad cyffredinol ac argyfwng i adeiladau ac o adeiladau yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig
- sicrhau bod cyfleusterau craidd – fel toiledau, ystafelloedd cyffredin, llyfrgelloedd a chyfleusterau arlwyo – wedi'u goleuo'n dda, ag arwyddion priodol ac yn hawdd i fyfyrwyr anabl eu cyrraedd
- adolygu ac addasu polisïau ac arferion dysgu ac asesu er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl
- sicrhau bod nodiadau darlithoedd ac adnoddau dysgu eraill ar gael mewn fformat electronig i'w defnyddio, er enghraifft, gan fyfyrwyr ag amhariad ar y golwg a'r rhai sydd ag anghenion dysgu sydd angen defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol cynorthwyol
- darparu systemau dolen i gynorthwyo myfyrwyr ag amhariadau ar y clyw
- caniatáu i fyfyrwyr gael amser i ffwrdd o astudiaethau i fynychu apwyntiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd i gefnogi lles corfforol a seicolegol.
- hwyluso amser i ffwrdd o'r cwrs am driniaeth ar gyfer cyflyrau iechyd mwy difrifol
- darparu amser ychwanegol mewn arholiadau ysgrifenedig
- sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau i ddileu gwahaniaethu ar sail anabledd ac i ddarparu addasiadau a chymorth addas.

Defnyddir enghreifftiau o achosion trwy gydol y ddogfen hon i ddangos sut y gellid cymhwyso'r canllawiau yn ymarferol. Mae'r rhain yn enghreifftiau ffuglennol, ac nid ydynt yn seiliedig ar achosion, unigolion neu ddarparwyr addysg osteopathig go iawn.

**Enghraifft o achos**

Mae gan ymgeisydd i ddarparwr addysg osteopathig sglerosis ymledol. Er ei fod yn mewn iechyd da yn gyffredinol a'i symptomau'n gymharol ysgafn, mae'n adrodd ei fod yn blino'n gyflym iawn, yn enwedig wrth ganolbwyntio am gyfnodau hir. Mae'n gofyn a ellir caniatáu seibiannau gorffwys yn ystod y dydd, os oes angen, yn ogystal â'r seibiannau wedi'u trefnu, ar y sail y bydd yn dal i fyny ar gynnwys wedyn. Mae'r ymgeisydd yn gofyn a ellir trefnu asesiadau dros sawl diwrnod hefyd, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r darparwr addysg yn ystyried y cyflwr iechyd, ac yn cael sgwrs agored gyda'r ymgeisydd ynglŷn â natur gorfforol y cwrs a'r gofynion y bydd hyn yn eu gosod ar yr ymgeisydd. Maen nhw'n trafod natur ymarfer osteopathig hefyd, a sut mae'r ymgeisydd yn teimlo y bydd yn ymdopi â phwysau'r clinig addysgu. Mae'r ymgeisydd yn eu sicrhau y bydd yn gallu ymdopi â'r cwrs os yw'n cael parhau ar gyflymder priodol. Ar y sail hon, mae'r darparwr addysg yn cynnig lle. Bydd y myfyriwr yn gallu cymryd seibiannau pan fydd yn teimlo'r angen, ac mae staff addysgu yn cael eu hysbysu am hyn. Mae'r myfyriwr yn cael tiwtor personol y gall gysylltu ag ef yn rheolaidd, ac mae'r myfyriwr yn gallu dal i fyny ar unrhyw addysgu y mae wedi'i golli trwy siarad â darlithwyr ar ôl pob sesiwn. Mae'r myfyriwr yn cael amser ychwanegol mewn asesiadau i ganiatáu seibiant byr pan fo angen, a threfnir nad oes mwy nag un asesiad i'w gynnal ar unrhyw ddiwrnod. Ar y sail hon, mae'r myfyriwr yn symud ymlaen yn llwyddiannus trwy Flwyddyn 1 y cwrs.

## A oes unrhyw anableddau a allai fy atal rhag hyfforddi fel osteopath?

62 Mae osteopathi yn broffesiwn sy'n heriol yn gorfforol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Efallai y bydd gan rai pobl anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n eu hatal rhag caffael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol neu rhag ymarfer yn ddiogel mewn ffordd sy'n bodloni ein safonau, ond nid oes unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd penodol sy'n atal rhywun rhag hyfforddi i fod yn osteopath. Mae pob ymgeisydd yn cael ei ystyried ar sail unigol.

63 Wrth ystyried eich cais, bydd y darparwr addysg osteopathig yn ystyried eu prif nod: darparu rhaglen addysg sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu i fod yn osteopathiaid diogel ac effeithiol sy'n gallu gweithio yn annibynnol a bodloni gofynion y **Safonau Ymarfer Osteopathig**.

64 Dylech gydnabod y bydd achosion pan fydd darparwr addysg osteopathig yn dod i'r casgliad na fydd addasiadau rhesymol yn ddigonol i alluogi myfyriwr i fodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig, neu **Ddeilliannau i Raddedigion** y GOsC, sy'n ofynnol wrth ymuno â'r proffesiwn. Dangosir detholiadau o'r canlyniadau hyn, at ddibenion enghreifftiol, yn y blwch isod, gydag arwydd o'r hyn y bydd angen i ddarparwr addysg ei ystyried ym mhob achos.

### Detholiadau o Ddeilliannau i Raddedigion GOsC

- Dylid cymryd hanes cywir o achos claf, gan addasu arddull gyfathrebu i ystyried anghenion a sensitifrwydd unigol y claf er mwyn meithrin perthynas therapiwtig effeithiol.
- Dylid dewis a chynnal asesiad a gwerthusiad clinigol cywir a phriodol ar gyfer claf unigol. Bydd hyn yn cynnwys profion clinigol perthnasol, arsylwi, archwilio trwy deimlo a dadansoddi symudiad er mwyn dysgu am yr holl arwyddion corfforol, meddyliol ac emosiynol perthnasol i ffurfio sail ar gyfer cynllun triniaeth a rheoli, mewn partneriaeth â'r claf, gan gynnwys dadansoddi achoseg ac unrhyw ffactorau sy'n rhagdueddu neu'n cynnal.
- Gwerthuso'n feirniadol unrhyw wybodaeth a gasglwyd o wahanol ymchwiliadau a ffynonellau, i lunio diagnosis dros dro priodol neu sail resymol ar gyfer gofal, yng nghyd-destun prognosis posibl, ac esbonio hyn yn glir i'r claf, gan gydnabod meysydd sydd angen eu hatgyfeirio ar gyfer triniaeth neu ymchwiliad pellach.
- Datblygu a gallu cymhwyso cynllun gofal priodol mewn partneriaeth â'r claf a fydd yn ystyried ei werthoedd, ei ddewisiadau a'i nodweddion penodol, yn seiliedig ar y diagnosis dros dro, y dystiolaeth orau sydd ar gael a sgiliau, profiad a chymhwysedd yr ymarferydd. Gall hyn gynnwys addysgu'r claf, symudedd, trin a phresgripsiwn ymarfer corff neu fentrau eraill i hyrwyddo a hwyluso hunanreoli'r claf, cymhwyso'r holl sgiliau ymarferol yn fanwl gywir, a'u haddasu pan fo angen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

**Bydd darparwyr addysg osteopathig yn ystyried galluoedd ymgeisydd i gynnal gwerthusiad ac asesiad effeithiol, ac i weithredu cynllun triniaeth gan ddefnyddio amrywiaeth briodol o dechnegau osteopathig.**

---

- Gweithio mewn partneriaeth â chleifion mewn modd agored a thryloyw, parchu eu hunigoliaeth, eu pryderon, eu dewisiadau, eu hurddas a'u gwyleidd-dra, a chefnogi cleifion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Trin pob person fel unigolyn, a bod yn chwilfrydig i archwilio eu pryderon a'u dewisiadau penodol, a nodi a goresgyn rhwystrau mewn cyfathrebu.
- Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol. Dylid dangos hyn trwy wneud y canlynol:

i. darparu cefnogaeth i gleifion fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt.

ii. dangos sgiliau rhyngbersonol effeithiol, bod yn gwrtais ac ystyriol gyda chleifion a chydweithwyr a'u trin ag urddas a chwrteisi.

iii. dangos sgiliau cyfathrebu clir ac effeithiol gan gynnwys fformatau ysgrifenedig, llafar ac amgen, i wella gofal cleifion.

iv. cyfathrebu gwybodaeth sensitif i gleifion, gofalwyr neu berthnasau yn effeithiol ac yn dosturiol a bod yn sensitif i anghenion cleifion.

v. darparu'r wybodaeth i gleifion y maen nhw angen ei gwybod neu'n dymuno ei gwybod, a hynny'n glir, yn llawn ac yn onest ac mewn ffordd y gallant ei deall, i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

**Bydd darparwyr addysg osteopathig yn ystyried gallu ymgeisydd i ffurfio partneriaethau cleifion trwy feithrin cydberthnasoedd cefnogol llawn ymddiriedaeth drwy gyfathrebu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

- Cydnabod y gall blinder a phroblemau iechyd mewn gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys eu hunain) gyfaddawdu gofal cleifion, a chymryd camau – gan gynnwys ceisio cyfarwyddyd gan eraill lle bo hynny'n briodol – i leihau'r risg hon.

**Bydd darparwyr addysg osteopathig yn ystyried hunanymwybyddiaeth ymgeisydd ynghylch ei broblemau iechyd ei hun.**

## Sut alla i gael y cymorth sydd ei angen arnaf?

65 Bydd gan ddarparwyr addysg osteopathig wasanaeth cymorth i fyfyrwyr â chyflyrau iechyd neu anableddau. Dylai'r gwasanaeth hwn allu darparu unrhyw gyngor a chymorth i chi yn ystod eich cwrs.

66 Efallai y bydd gennych hawl i dderbyn cymorth ariannol drwy'r **Lwfans Myfyrwyr Anabl**, ond bydd angen i'ch cymhwystra gael ei gadarnhau. Bydd eich darparwr addysg osteopathig yn gallu eich cynghori sut i wneud cais am hyn ac am gymorth ariannol arall posibl. Mae yna nifer o elusennau sy'n darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr â gwahanol fathau o anabledd a chyflyrau iechyd. Rydym wedi rhestru rhai o'r rhain yn Adran 4, ond efallai y bydd yn werth i chi hefyd edrych ar sefydliadau eraill rydych eisoes yn ymwybodol ohonynt, neu edrych ar wefan **Gov.uk**, i ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth ar gyfer eich anghenion penodol.

## Beth os ydw i'n meddwl fy mod wedi cael fy nhrin yn annheg yn ystod y broses ymgeisio?

67 Os oes gennych bryderon bod eich anabledd neu gyflwr iechyd wedi cael effaith andwyol ar y ffordd y mae'r darparwr addysg wedi asesu eich cais, a'ch bod wedi gwneud hunanasesiad gonest o'ch potensial i fodloni'r deilliannau a nodir yn y **Deilliannau i Raddedigion** a luniwyd gan y GOsC a'r **Safonau Ymarfer Osteopathig**, yna dylech gysylltu â'r darparwr addysg a gwneud cwyn trwy eu gweithdrefn gwyno. Os nad ydych yn fodlon bod eich cwyn wedi'i thrin yn briodol, efallai yr hoffech gysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (mae rhagor o fanylion yn Adran 4).

# Adran 3: Yn ystod y rhaglen astudio

## Os byddaf yn cael lle, a fyddaf yn cael cefnogaeth yn ystod fy rhaglen radd mewn osteopathi?

68 Unwaith y byddwch yn cael cynnig lle, bydd y darparwr addysg osteopathig eisiau gweithio gyda chi i gytuno ar y cymorth a'r addasiadau rydych yn meddwl y bydd eu hangen arnoch. Bydd y darparwr addysg yn cydnabod eich bod yn fwy tebygol o wybod beth sydd wedi helpu yn y gorffennol ac yn gallu cynnig awgrymiadau am yr addasiadau angenrheidiol.

69 Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi gael eich asesu gan arbenigwr (er enghraifft cynghorydd iechyd galwedigaethol neu seicolegydd addysg) i ganfod pa fath a lefel o gymorth fydd ei angen, neu i ddarparu cadarnhad ffurfiol o anghenion dysgu. Gallai hyn fod yn angenrheidiol hefyd os ydych yn gwneud cais am gymorth ariannol.

70 Ar ôl ystyried eich anabledd neu gyflwr iechyd a'ch anghenion penodol, weithiau efallai y bydd amgylchiadau lle mae darparwr y cwrs yn dod i'r casgliad nad yw'r addasiadau sydd eu hangen i chi ymgymryd â'r cwrs yn mynd i fod yn rhesymol mewn gwirionedd. Bydd y sefydliad addysg yn esbonio eu penderfyniad i chi ac yn mynd ati gyda chi i archwilio cyrsiau a dewisiadau gyrfa amgen posibl yr hoffech eu hystyried o bosibl.

## Pa addasiadau y gellir eu gwneud i'm cefnogi i gwblhau'r rhaglen?

71 Bydd darparwyr addysg osteopathig yn ymdrechu i roi'r holl addasiadau sydd eu hangen arnoch ar waith er mwyn sicrhau nad ydych dan anfantais sylweddol o safbwynt y dysgu, yr addysgu a'r asesu ar y cwrs, cyn belled â bod y rhain yn rhesymol. Ni allant newid y safon cymhwysedd (hynny yw'r deilliannau dysgu y mae angen i chi eu cyflawni ar ddiwedd y cwrs), gan fod y rhain yn ymwneud â'r gofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni i gofrestru ac ymarfer fel osteopath.

72 Mae'n bwysig nad yw addasiadau i'ch cefnogi chi yn cael effaith andwyol sylweddol ar eraill. Er enghraifft, nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disodli deddfwriaeth iechyd a diogelwch, felly ni ddylech chi nac unrhyw un arall sy'n rhan o'r darparwr addysg fod yn agored i risgiau ychwanegol i'w hiechyd neu eu diogelwch o ganlyniad i addasiad.

**Mae myfyrwyr osteopathi ag anableddau a chyflyrau iechyd wedi elwa ar amrywiaeth eang o addasiadau a wnaed gan ddarparwyr hyfforddiant. Mae enghreifftiau'n cynnwys:**

- addasiadau i'r amgylchedd ffisegol, yn fewnol ac yn allanol er mwyn gwella mynediad at gyfleusterau a'r defnydd ohonynt, ac i nodweddion fel goleuadau ac inswleiddio sain
- addasiadau i addysgu a dysgu, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gweledol, sain ac electronig ynghyd â'r technolegau cynorthwyol cysylltiedig
- cymorth dynol, ar ffurf hyfforddi a mentora, cymorth tiwtorial ychwanegol, a chymorth penodol gyda thasgau arbennig, fel aseiniadau prawfddarllen
- gwneud ystyriaethau penodol, er enghraifft drwy ymestyn dyddiadau cau, caniatáu absenoldebau, darparu seibiannau mewn sesiynau addysgu, neu drwy lacio rheoliadau (er enghraifft, i ganiatáu i fyfyriwr gario meddyginiaeth angenrheidiol, ei storio ar y safle a'i gymryd)
- darparu offer neu feddalwedd, er enghraifft i gefnogi dysgu drwy gymorth cyfrifiadur, meddalwedd adnabod llais a rhaglen darllen sgrin, ac ar ffurf gliniaduron a dyfeisiau llaw ar gyfer cymryd nodiadau
- hwyluso mynediad at adnoddau, er enghraifft ar gyfer prynu gwerslyfrau i'w defnyddio gartref i helpu i fynd i'r afael â'r blinder sy'n gysylltiedig â theithiau mynych i'r llyfrgell, ac ar gyfer defnyddio tacsis ar ôl triniaethau gofal iechyd penodol
- mewn arholiadau, er enghraifft wrth gynllunio a chyflwyno papurau arholiadau, trwy ddarparu amser ychwanegol a chaniatáu seibiannau gorffwys, cael gwared ar gosbau am sillafu, gramadeg ac atalnodi gwael neu ganiatáu cyfrifiaduron gyda gwirwyr sillafu, trefnu ystafelloedd a goruchwyliaeth ar wahân, a chaniatáu defnyddio darllenydd neu ysgrifennydd
- mewn asesiadau ymarferol, drwy ganiatáu sesiynau ymarfer ychwanegol, rhoi mwy o amser i'r myfyriwr ymgyfarwyddo â'r lleoliad neu i gyfweld, asesu a chofnodi gwybodaeth am gleifion, neu i ddefnyddio dyfais recordio ar gyfer trawsgrifio wedyn, drwy ganiatáu addasiadau i drefniant ffisegol a nodweddion yr ardal archwilio a thriniaeth – fel gofod ychwanegol neu oleuadau penodol – a chaniatáu defnyddio cymhorthion i hwyluso triniaethau
- darparu cymorth ychwanegol, er enghraifft ar ffurf tiwtorialau un-i-un neu gyfarwyddyd clinig ychwanegol, neu drwy addysgu sgiliau astudio a thechnegau dysgu penodol, nodi myfyriwr penodol i fod yn 'gyfaill', neu gynnig mentora parhaus neu gymorth gydol y cwrs gan diwtor personol, cwnselydd myfyrwyr neu swyddog anabledd.

**Enghraifft o achos**

Mae myfyriwr blwyddyn gyntaf yn cael prawf sgrinio ar gyfer dyslecsia, y mae'r darparwr yn ei gynnig i bob myfyriwr. Mae hyn yn dangos ei fod yn debygol iawn o fod ag anawsterau dyslecsig, rhywbeth nad oedd yn ymwybodol ohono nes iddo gael canlyniadau'r prawf, ond sy'n egluro rhai o'r heriau a wynebodd yn ystod ei addysg gynharach. Dilynir hyn gan asesiad diagnostig llawn. Mae'r myfyriwr yn cael ei gyfeirio at y tîm cymorth myfyrwyr, sy'n llunio cynllun cymorth dysgu. Mae'r myfyriwr yn cael cynnig amser ychwanegol mewn asesiadau, ac, oherwydd ei fod yn ei chael hi'n haws ysgrifennu gyda gliniadur, gall ddefnyddio cyfrifiadur mewn asesiadau ysgrifenedig.

73 Mae rhai addasiadau wedi dod yn arfer safonol i ddarparwyr addysg a gellir eu rhoi ar waith yn gyflym, yn enwedig i fyfyrwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd y mae gan bobl ddealltwriaeth gymharol dda ohonynt a lle mae'n hysbys bod yr addasiadau yn darparu budd syml ac uniongyrchol. Gall addasiadau eraill gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â nhw a'u gweithredu oherwydd bod angen iddynt gael eu cynllunio yn arbennig ar gyfer myfyriwr penodol.

74 Bydd yr addasiadau sydd eu hangen ar rai myfyrwyr yn amrywio dros amser oherwydd bod eu hanabledd neu gyflwr iechyd yn newid. Os byddwch yn gweld bod hyn yn digwydd i chi, dylech gysylltu â'r aelod staff perthnasol i drafod y newidiadau.

## A fydd angen i mi newid y ffordd rwy'n rheoli fy iechyd neu anabledd?

75 Bydd angen i chi feddwl am sut rydych wedi rheoli eich anabledd neu gyflwr iechyd yn amgylchedd eich cartref a sut mae pethau'n debygol o newid fel myfyriwr osteopathig. Ystyriwch eich rhwydwaith cymorth presennol, fel y teulu a'r ffrindiau sydd wedi eich helpu i fyw gyda'ch anabledd, a'r graddau y byddant ar gael ac wrth law i ddarparu cefnogaeth yn y dyfodol. Os ydych yn bwriadu symud i ardal newydd i ymgymryd â'ch astudiaethau, bydd angen i chi gydnabod y bydd yn cymryd amser i ddatblygu rhwydwaith cymorth newydd.

76 Mae rhai myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd wedi dweud, yn ogystal â'r heriau y mae pob myfyriwr yn eu hwynebu wrth ddechrau hyfforddiant osteopathig, eu bod wedi gorfod gwneud hyd yn oed mwy o ymdrech i ymdopi ag amserlenni academaidd a chymdeithasol blinedig, sefydlu cysylltiadau newydd a rhwydweithiau cefnogaeth ymysg eu cyd-fyfyrwyr, ac i ddod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng gofynion astudio, bywyd cymdeithasol newydd a'u hiechyd a'u lles parhaus.

## Sut mae materion iechyd ac anabledd yn ymwneud ag addasrwydd myfyrwyr i ymarfer?

77 Mae 'addasrwydd i ymarfer' yn derm a ddefnyddir yn y maes gofal iechyd sy'n ymwneud â rhywun sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau priodol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn unol â safonau rhagnodedig. Mae disgwyliadau ar fyfyrwyr yn hyn o beth hefyd, a dylech ymddwyn fel gweithiwr proffesiynol cyfrifol trwy gydol eich hyfforddiant. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn ein **Canllawiau Addasrwydd Myfyrwyr i Ymarfer**. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan fydd eich addasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu, oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd.

78 Mae darparwyr addysg osteopathig yn debygol o fod yn bryderus os ydych yn dangos diffyg dealltwriaeth o natur neu effaith eich anabledd neu gyflwr iechyd, a'r effaith bosibl ar ofal cleifion a'ch gallu i fodloni'r safonau ymarfer osteopathig. Un enghraifft o hyn fyddai myfyriwr y mae ei ddealltwriaeth wedi ei amharu o bryd i'w gilydd oherwydd ei fod wedi methu â chymryd meddyginiaeth gynhaliaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r meddyg.

**Enghraifft o achos**

Mae myfyriwr aeddfed yn perfformio'n dda ym Mlwyddyn 1 rhaglen osteopathi, ond yn yr ail flwyddyn mae wedi encilio ac nid yw'n cyfathrebu, ac mae ei bresenoldeb mewn darlithoedd yn dechrau gostwng. Mae staff addysgu yn hysbysu'r swyddog lles myfyrwyr am y sefyllfa, sy'n trefnu cyfarfod gyda'r myfyriwr. Mae'r myfyriwr yn dweud ei fod yn teimlo dan straen ac yn cael trafferth ymdopi â gwaith rhan-amser, bywyd teuluol a'i astudiaethau. O dan bolisi Addasrwydd i Astudio'r darparwr addysg osteopathig, mae'r swyddog lles myfyrwyr a thiwtor personol yn cwrdd â'r myfyriwr i'w helpu i ganfod ffyrdd o gynllunio ei astudiaethau yn well, a'r holl ofynion sydd arno. Cytunir y byddant yn cwrdd â'r myfyriwr yn rheolaidd i fonitro cynnydd. Ddeufis yn ddiweddarach, mae ymddygiad y myfyriwr wedi dirywio. Mae rhywun yn ei riportio am siarad yn ymosodol gyda chlaf yn y clinig addysgu. Mae'r swyddog lles yn cefnogi'r myfyriwr i ofyn am gyngor meddygol gan ei feddyg teulu, ac mae'n cael ei atgyfeirio at seiciatrydd. Mae'r seiciatrydd yn penderfynu bod gan y myfyriwr anhwylder deubegynol, ac mae'n cynghori bod angen iddo gael ei roi ar feddyginiaeth briodol ar unwaith. Ar ôl gwella ar y cychwyn, mae cyflwr y myfyriwr yn gwaethygu eto, ac mewn cyfarfod gyda'r swyddog lles, mae'n cyfaddef ei fod wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth. Nid yw'n dangos unrhyw ddealltwriaeth o'i gyflwr, nac ar effaith ei ymddygiad ar gydweithwyr a chleifion. Mae'r myfyriwr yn cael ei wahardd o'r cwrs, ac mae ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cael ei gychwyn sy'n arwain at atal pellach am gyfnod, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n gallu cael cyngor gan grŵp cymorth ac ailymgysylltu â'i gynllun triniaeth hefyd. Mae hyn yn rhoi persbectif newydd iddo ar reoli ei gyflwr ac effaith peidio â gwneud hynny ar eraill. O ganlyniad, mae'r myfyriwr yn cael ei aildderbyn i'r cwrs yn y mis Medi canlynol, ac yn ailddechrau Blwyddyn 2.

79 Os oes gan ddarparwr addysg osteopathig bryderon am sut rydych chi'n rheoli eich cyflwr, bydd yn codi'r pryder gyda chi ac yn trafod beth y gellir ei wneud i ddatrys y broblem. Er gwaethaf addasiadau a chymorth, os ydych yn parhau i beidio â rheoli eich cyflwr yn effeithiol ac o bosibl yn rhoi cleifion mewn perygl, efallai y bydd eich addasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu. Gall hyn arwain at ymchwiliad ffurfiol addasrwydd i ymarfer a allai arwain at eich gwahardd o'r cwrs.

80 Dylai darparwyr addysg osteopathig fod â phrosesau ar waith i ganfod materion ymddygiadol a allai godi amheuon ynghylch gallu myfyriwr i ymarfer yn ddiogel fel myfyriwr osteopath. Gallai'r rhain gynnwys:

- Presenoldeb gwael mewn darlithoedd
- Cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr
- Diffyg ymgysylltu â'r cwrs
- Ymddygiad ymosodol
- Cyfathrebu gwael â staff a/neu gleifion.

81 Gyda'i gilydd, gellid ystyried y rhain yn bryderon addasrwydd i ymarfer, ond gallant fod yn ddangosyddion hefyd bod y myfyriwr yn ei chael hi'n anodd yn gyffredinol, neu fod ganddo anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar ei astudiaethau. Gellir defnyddio prosesau monitro felly fel ffordd o nodi'r angen am weithredu a chefnogaeth.

82 Mewn achosion eithriadol, gall iechyd neu anabledd myfyriwr ei gwneud hi'n amhosibl iddo gwblhau'r cwrs, a bodloni disgwyliadau'r **Safonau Ymarfer Osteopathig**. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r darparwr addysg osteopathig fod yn agored gyda'r myfyriwr a cheisio dod i benderfyniad ar y cyd ynghylch y ffordd orau o weithredu. Dylai'r darparwr addysg osteopathig gynnig cymorth i'r myfyriwr i ddod o hyd i gwrs astudio neu yrfa arall, lle bo hynny'n bosibl.

## Beth yw 'addasrwydd i astudio'?

83 Defnyddir polisïau a gweithdrefnau addasrwydd i astudio yn helaeth gan ddarparwyr addysg uwch. Maen nhw'n helpu i asesu risgiau ac i gymryd camau mewn amgylchiadau lle mae iechyd, ymddygiad neu amgylchiadau eraill myfyriwr yn peri pryder. Efallai y bydd pryderon ynghylch gallu'r myfyriwr i gymryd rhan yn ei astudiaethau, neu ei fod yn risg iddo ef ei hun neu eraill.

84 Mae gweithdrefnau addasrwydd i astudio yn cynnwys sawl cam fel arfer, gydag ymyrraeth gynnar wedi'i gynllunio i nodi a deall y mater a chynnig cymorth priodol. Os yw'r materion sy'n arwain at y pryderon yn parhau, mae'r cam nesaf yn debygol o gynnwys proses fwy rhagweithiol a ffurfiol i asesu sefyllfa'r myfyriwr, a phenderfynu sut y gellid rheoli hyn orau.

85 O fewn darparwyr addysg osteopathig, mae'n debygol y bydd gweithdrefnau 'addasrwydd i astudio' ac 'addasrwydd i ymarfer' yn gorgyffwrdd: os bydd ymyrraeth gynnar o dan broses 'addasrwydd i astudio' yn methu, mae ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn debygol o ddigwydd.

**Enghraifft o achos**

Mae myfyriwr yn dioddef o iselder a gorbryder, ond mae hyn yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan, gyda chyfuniad o feddyginiaeth gwrthiselyddion a chwnsela. Mae'n canfod hefyd bod ymarfer corff rheolaidd yn helpu i leddfu symptomau. Ym mlwyddyn 2 y cwrs, mae'n profi profedigaeth deuluol sy'n dwysáu ei orbryder a'i iselder, ac mae'n cael trafferth ymdopi â gofynion ei astudiaethau. Mae meddyg teulu'r myfyriwr yn newid ei feddyginiaeth, sy'n ymddangos fel ei fod yn gwneud pethau'n waeth i ddechrau. Mae'n amharod i gymryd amser i ffwrdd o'i astudiaethau, gan ei fod yn teimlo hefyd y bydd hyn yn gwneud pethau'n waeth. Mae'r darparwr addysg yn cytuno y gall barhau â'i astudiaethau, ond gall gyrraedd yn hwyr bob bore, os oes angen, a chymryd amser allan o ddarlithoedd os yw'n teimlo cynnydd yn ei orbryder. Mae'r darparwr yn gosod ei amserlen asesu dros gyfnod hwy, fel bod modd cymryd rhai o'i arholiadau yn ddiweddarach yn yr haf. Mae'r addasiadau hyn yn cefnogi'r myfyriwr i reoli'r cyfnod heriol hwn, ac mae'n symud ymlaen yn llwyddiannus i Flwyddyn 3.

## Beth sy'n digwydd os bydd anabledd neu gyflwr iechyd yn datblygu neu fod y diagnosis yn cael ei roi ar ôl i mi ddechrau'r cwrs?

86 Mae'n bosibl nad ydych yn ymwybodol bod gennych gyflwr iechyd oherwydd eich bod wedi dod o hyd i ffyrdd o'i reoli, neu eich bod yn cymryd yn ganiataol bod pawb yn cael profiadau tebyg.

87 Mae rhai myfyrwyr yn mynd yn sâl yn ystod eu cwrs, yn dioddef damwain sy'n effeithio ar eu galluoedd, neu'n canfod bod angen newid y feddyginiaeth y maen nhw wedi bod yn ei defnyddio. Mae darparwyr addysg yn cydymdeimlo â newidiadau o'r fath fel arfer ac yn cydnabod y gall yr amgylchiadau hyn fod yn anodd i fyfyrwyr eu rheoli. Mae'n hanfodol eich bod yn agored ac yn onest ac yn esbonio'r anawsterau rydych yn eu profi. Gall addasiadau gael eu newid yn ystod cwrs neu gael eu rhoi ar waith yn ddiweddarach os bydd eich anghenion yn newid. Gorau po gyntaf y byddwch yn gallu dweud wrth eich darparwr am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, gan fod mwy o amser i weithio gyda chi i atal unrhyw broblemau rhag cynyddu.

88 Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin, gydag amcangyfrifon y bydd tua **25% o'r boblogaeth** yn cael eu heffeithio dros gyfnod o flwyddyn. Iselder a gorbryder cyffredinol yw'r anhwylder meddwl mwyaf cyffredin i effeithio ar bobl yn y DU, a gall y straen o astudio, byw oddi cartref, ac ymdopi â sefyllfaoedd a heriau newydd gynyddu'r symptomau. Bydd darparwyr addysg yn brofiadol wrth gefnogi myfyrwyr gydag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl ac, fel gydag unrhyw gyflwr iechyd arall, mae'n cynghori rhoi gwybod i berson priodol yn y sefydliad a cheisio cymorth ar y cyfle cyntaf.

89 Bydd darparwyr addysg yn eich annog i gofrestru â meddyg teulu lleol. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn gallu derbyn cymorth a chyngor meddygol priodol a gwrthrychol yn eich ardal leol newydd. Pan fydd salwch yn digwydd yn ystod eich astudiaethau, fel arfer y camau mwyaf priodol fydd i'r darparwr addysg eich cyfeirio at eich meddyg teulu, a fydd yn gallu eich atgyfeirio ymlaen am driniaeth fwy arbenigol, pe bai hyn yn angenrheidiol.

## Os byddaf yn llwyddo i gael gradd, a fyddaf yn cael fy nghofrestru fel osteopath gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol?

90 Os dyfernir Cymhwyster Cydnabyddedig i chi, mae'n golygu bod y darparwr addysg osteopathig wedi barnu eich bod yn gallu ymarfer yn annibynnol yn ôl y safonau gofynnol a nodir yn y **Safonau Ymarfer Osteopathig**. Unwaith y byddwch ar Gofrestr osteopathiaid y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, bydd gofyn i chi ymarfer yn unol â'n safonau cymhwysedd ac ymddygiad cyhoeddedig.

1. Fel arfer bydd Cymhwyster Cydnabyddedig yn arwain at gofrestru, ar yr amod bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn fodlon eich bod:

- Mewn iechyd da - hynny yw, nad oes unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd yn eich atal rhag gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Wrth gofrestru am y tro cyntaf, mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpar gofrestrai ddarparu geirda iechyd gan feddyg sydd â mynediad at ei gofnodion meddygol o'r pedair blynedd diwethaf. Os nad ydych yn gallu cael geirda iechyd gan feddyg, dylech ofyn am gyngor gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Yn achos cyflyrau iechyd meddwl, dim ond lle gallai iechyd meddwl osteopath roi cleifion mewn y bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn bryderus. Ni fydd y rhan fwyaf o gyflyrau iechyd meddwl yn risg i gleifion, ar yr amod bod yr osteopath yn deall ei gyflwr ei hun a'i fod yn cael ei reoli'n dda.
- O gymeriad da - hynny yw, rydych yn onest ac yn ddibynadwy. Mae cymeriad da yn seiliedig ar ymddygiad ac agweddau person. Rydym yn ystyried unrhyw euogfarnau a rhybuddiadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gydnaws â chofrestriad proffesiynol ac a allai ddwyn anfri ar y proffesiwn. Mae angen geirda cymeriad gan berson proffesiynol (er enghraifft cyfrifydd, athro, deintydd neu debyg) sydd wedi eich adnabod ers pedair blynedd (ac nad yw'n berthynas).

- Addasrwydd i ymarfer – hynny yw, mae gennych y sgiliau, yr wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud eich swydd yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd eich addasrwydd i ymarfer fel myfyriwr yn cael ei asesu drwy gydol eich rhaglen cyn-gofrestru gan y darparwr addysg osteopathig. Fel arfer, rydym yn ystyried ei fod wedi cael ei farnu'n foddhaol os dyfernir Cymhwyster Cydnabyddedig i chi.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gymhwyso?

91 Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd, nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon ar ein Cofrestr, ac nid ydym yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar y ffordd rydych yn ymarfer osteopathi.

92 Pan fyddwch yn cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, rydych yn ymrwymo i ymarfer yn unol â'r safonau a nodir yn y **Safonau Ymarfer Osteopathig**, a byddwch yn gyfrifol yn bersonol am gynnal safonau ymarfer proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, cynnal yswiriant indemniad proffesiynol a sicrhau eich addasrwydd i ymarfer. Mae'n cynnwys sicrhau hefyd nad oes unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion.

93 Os yw eich cyflwr yn gwaethygu neu os ydych chi'n datblygu cyflwr iechyd neu'n dod yn anabl pan fyddwch ar y Gofrestr, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ffordd rydych yn gweithio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithio mewn practis grŵp lle gall cydweithwyr ddarparu cymorth neu ddirprwyo, cyfyngu ar eich ymarfer i ddull mwy cyfyngedig, neu dalu am fathau penodol o gymorth (fel arwyddo neu gymorth gweinyddol) i'ch helpu i gynnal safonau uchel o ofal cleifion. Mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid yn hunangyflogedig, ond os ydych chi'n gyflogedig, mae gan eich cyflogwr ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol os ydynt yn ymwybodol o'ch anabledd.

94 Mae penderfynu a ydych yn addas i ymarfer ac yn parhau'n addas ac yn gallu sicrhau diogelwch cleifion yn gyfrifoldeb proffesiynol craidd ac yn fater i chi ac i bawb ar y gofrestr benderfynu drostynt eu hunain.

95 Ar ôl i chi gofrestru, bydd disgwyl i chi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), a chasglu digon o dystiolaeth i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'n **gofynion DPP**. Mae **Canllawiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus** ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

## A fydd modd i mi ennill bywoliaeth fel osteopath?

96 Ein cyfrifoldeb statudol fel y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd. Nid ydym yn gallu dweud a fyddwch chi – neu unrhyw osteopath arall – yn gallu ennill bywoliaeth o yrfa mewn osteopathi. Mae yna lawer o osteopathiaid yn ymarfer sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd. Roedd gan rai ohonynt yr anableddau neu'r cyflyrau iechyd hyn pan oeddent yn fyfyrwyr, ac mae eraill wedi eu datblygu yn ddiweddarach yn eu gyrfaoedd. Mae angen i bob osteopath asesu drosto ei hun ei addasrwydd i ymarfer a'i allu i ennill bywoliaeth o osteopathi.

# Adran 4: Cael rhagor o wybodaeth a chymorth

Ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol:

**Action on Hearing Loss**
**rnid.org.uk**

**Cymdeithas Dyslecsia Prydain**
**www.bdadyslexia.org.uk**

**Disability Rights UK**
Mae canllaw defnyddiol i fyfyrwyr ynglŷn â datgelu eu hanabledd ar gael yn:
**www.disabilityrightsuk.org**

Hefyd, gwybodaeth gyffredinol am ddeall y Ddeddf Cydraddoldeb:
**www.disabilityrightsuk.org/understanding-equality-act-information-disabled-students**

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gylch gwaith statudol i hyrwyddo a monitro hawliau dynol ac amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y nodweddion gwarchodedig. Mae ar gael yma:
**www.equalityhumanrights.com**

**Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo ar Gydraddoldeb**
Mae'r Llinell Gymorth yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.
**www.equalityadvisoryservice.com/app/home**

**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
**www.osteopathy.org.uk**

**Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth**
Mae gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (sydd yn y Swyddfa Gartref) gyfrifoldeb ar draws y llywodraeth am strategaeth a deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae ar gael yma:
**homeoffice.gov.uk/equalities**

**Gov.uk**
I gael gwybodaeth am y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl:
**www.gov.uk/disabled-students-allowance-dsa**

**Guide to Practice Based Learning for Neurodivergent Students:**
**www.hee.nhs.uk**

**Mind**
**www.mind.org.uk**

**Mind Cymru**
**www.mind.org.uk**

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)**
Mae'r OIA yn gorff annibynnol, wedi'i sefydlu i ymdrin â chwynion myfyrwyr. Yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr, mae'r OIA yn ymdrin â chwynion yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr.
**oiahe.org.uk**

**Y Swyddfa Fyfyrwyr**
Amrywiaeth o adnoddau a gwybodaeth i gefnogi darparwyr addysg i ddiwallu anghenion iechyd meddwl myfyrwyr.
**www.officeforstudents.org.uk**

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall**
**www.rnib.org.uk**

**Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education**
**taso.org.uk**

**Prifysgolion y DU**
Yn darparu gwybodaeth ac arweiniad ar iechyd a lles myfyrwyr:
**www.universitiesuk.ac.uk/topics/health-and-wellbeing**

**Deddfwriaeth**

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- Nodiadau esboniadol ar gyfer y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**
- **Deddf Osteopathiaid 1993**

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)